

SORCHA, RHEOLWR MARCHNATA >

Beth ydy dy swydd di?

Dw i'n Rheolwr Marchnata gyda Green Angel Skincare, brand gofal croen figan o Iwerddon.

Beth ydy diwrnod gwaith arferol i ti?

Dw i'n dechrau'r diwrnod gyda negeseuon e-bost, ac wedyn yn rhestru blaenoriaethau. Dw i'n dirprwyo tasgau i'r tîm, ac yn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n deall erbyn pryd mae angen cwblhau'r gwaith. Fel arfer, mae gen i dair galwad ffôn i'w gwneud bob dydd – i fanwerthwyr, i gleientiaid neu i reolwyr eraill. Mae fy swydd i'n eang. Byddwn i'n gallu bod yn ymweld â siop, yn golygu lluniau, yn edrych ar ddata a'i ddadansoddi, yn ysgrifennu datganiadau i'r wasg, yn tynnu lluniau neu'n meddwl am syniadau creadigol.

Pa sgiliau digidol syffaenol rwyt ti'n eu defnyddio yn dy swydd?

Dw i'n ysgrifennu negeseuon e-bost ac yn defnyddio Microsoft PowerPoint ar gyfer cyfarfodydd a chyflwyniadau. Mae Google Suite hefyd yn rhan fawr o fy swydd i.

Pa raglenni a meddalwedd rwyt ti'n eu defnyddio, ac ar gyfer beth?

Adobe Suite ar gyfer golygu lluniau, fideos a graffigau. Wrth i gyfryngau cymdeithasol gynyddu, mae angen creu cynnwys amlgyfrwng, ac mae'r adnoddau yma'n hollbwysig. Maen nhw hefyd yn bwysig er mwyn gofalu bod gwefan yn dal i edrych yn newydd bob tro y bydd cwsmer yn ymweld â hi. Dw i hefyd yn defnyddio adnodd CRM (rheoli cysylltiadau cwsmeriaid) ar gyfer marchnata dros e-bost.

Oes angen unrhyw sgiliau digidol arbenigol arnat ti ar gyfer dy swydd? Beth ydyn nhw?

Defnyddio adnoddau i fesur a deall arferion prynu a thueddiadau cwsmeriaid. Mae marchnata digidol a dylunio profiadau defnyddwyr (dylunio gwefannau) yn ddefnyddiol iawn hefyd, ac yn sgiliau pwysig ar gyfer fy swydd i. Mae gofyn bod gennych chi hefyd y sgiliau sylfaenol i olygu fideos a lluniau, oherwydd mae hynny'n rhan mor fawr o frandio digidol a brandio ar gyfryngau cymdeithasol. Mae angen i chi wybod sut i ysgrifennu testun a fydd i'w weld ar-lein – penawdau, llinellau pwnc a chapsiynau.

Wyt ti'n defnyddio unrhyw sgiliau digidol yn dy swydd nad oeddet ti'n gwybod amdany'n nhw neu'n eu disgwyl cyn dechrau?

Marchnata Digidol, yn sicr. Baneri gwefannau, delweddu o'r cynnyrch, a lluniau ffordd o fyw. Sut ydych chi am gyflwyno'r cynnyrch yma ar-lein, mewn e-bost neu ar gyfryngau cymdeithasol? Mae angen i chi apelio at bobl mewn ffordd sy'n cadw at ganllawiau'r brand ac yn llwyddo i hoelio sylw ar y rhyngwrdd ar yr un pryd.

Sut wyt ti'n cadw dy sgiliau digidol yn gyfredol, a pham maen bwysig gwneud hynny?

Mynd i gynadleddau, gwneud gweminarau, a chadw llygad ar y gystadleuaeth. Mae angen gwneud cyrsiau a buddsoddi mewn hyfforddiant meddalwedd. Mae hynny'n rhoi cyfle i chi ymateb i dueddiadau, ac i greu cynnwys gwreiddiol mewn amgylchedd sydd eisoes yn orlawn o syniadau creadigol. Mae'n eich helpu i ddeall eich data, eich cynulleidfa ac arferion gwario'ch cwsmeriaid. Mae'n rhoi arweiniad i chi ar sut i deilwra'ch cynnwys er mwyn cael canlyniadau da.

Pa gyngor fyddet ti'n ei roi i bobl ifanc am sgiliau digidol?

Dysgwch gymaint o sgiliau ag y gallwch chi. Mae'r rhyngwrdd yn dal yn ifanc, a bydd y galw am sgiliau digidol yn siŵr o gynyddu. Bydd yn gwneud i'ch CV chi sefyll allan, ac yn eich helpu gyda phob elfen o'ch swydd.



MARCUS, YMGYNGHORYDD TG >

Beth ydy dy swydd di?

Dw i'n Ymgynghorydd TG sy'n gweithio i BT. Yn gyntaf oll, dw i'n gweithio gyda thimau cyfrifon a chwsmeriaid BT i edrych ar berfformiad, a dw i'n argymhell gwelliannau. Dw i'n canolbwyntio ar helpu BT a'r cwsmer i gyrraedd safonau ITIL (safonau sy'n helpu i ddarparu gwasanaethau TG o ansawdd uchel). Mae ail ran fy swydd i'n canolbwyntio ar ddatblygu achosion busnes er mwyn i gwmnïau rhyngwladol mawr roi'r gorau i ddefnyddio trefniadau rhwydweithio traddodiadol, a throi at ffyrdd mwy effeithlon, costeffeithiol a modern o gysylltu.

Beth ydy diwrnod gwaith arferol i ti?

Mae fy niwrnod arferol i'n dechrau drwy ddarllen ac anfon negeseuon e-bost, a chael cyfarfodydd prosiect am waith sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dw i'n defnyddio llawer o ddata yn fy ngwaith o ddydd i ddydd, ac yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau ar gyfer cloddio, glanhau, trin a delweddu data. Dw i'n gweithio gartref, felly mae'n hollbwysig bod yn ddisgybledig wrth reoli amser, yn enwedig o ran cael cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Dw i'n ceisio cymryd seibiant yn rheolaidd ac, os yw'n bosibl, mynd am dro amser cinio.

Pa sgiliau digidol syffaenol rwyt ti'n eu defnyddio yn dy swydd?

Mae defnyddio Microsoft Excel yn allweddol i fy swydd. Mae'n bwysig iawn cael dealltwriaeth fanwl o sut i drin data. Mae deall sut i gyfleu neges yn bwysig hefyd. Felly mae gallu ysgrifennu negeseuon e-bost, deunyddiau cyflwyno a dogfennau clir yn hollbwysig. Yn y pen draw, gallu sefyll o flaen pobl a chyflwyno neges glir, gan ddefnyddio adnoddau digidol, sy'n bwysig.

Pa raglenni a meddalwedd rwyt ti'n eu defnyddio, ac ar gyfer beth?

- Qlik – Echdynnu data/Cloddio data
- Power Query – Echdynnu a glanhau data
- Power Pivot/DAX – Modelu data
- Microsoft Excel – Dadansoddi data/Delweddu data
- Power BI – Delweddu data
- Microsoft PowerPoint – Creu deunyddiau cyflwyno
- Microsoft Teams – Cydweithio

Oes angen unrhyw sgiliau digidol arbenigol arnat ti ar gyfer dy swydd? Beth ydyn nhw?

Oes. Mae gen i ddealltwriaeth eang o dechnolegau TG (rhaglennu, rhaglenni, rhwydweithiau ac ati), a delweddu data – defnyddio'r adnoddau uchod i wneud yn fawr o'r data sydd wedi cael ei ddarparu yn ystod fy ymchwiliadau.

Wyt ti'n defnyddio unrhyw sgiliau digidol yn dy swydd nad oeddet ti'n gwybod amdany'n nhw neu'n eu disgwyl cyn dechrau?

Mae dysgu am ddarparwyr eraill wedi fy synnu i – ee, Amazon Web Services, Microsoft Azure a Google Cloud. Mae'r dechnoleg yn y meysydd yma'n symud yn gyflym iawn, felly mae'n rhaid i mi wneud yn siŵr bod gen i'r wybodaeth ddiweddaraf bob amser.

Dw i hefyd wedi synnu pa mor bwysig ydy gallu adrodd stori ar sail data. Mae delweddu data wedi bod yn bwysig iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae pob penderfyniad busnes yn cael ei yrru gan ddata. Mae gallu troi data'n wybodaeth a darparu cipolwg yn sgil allweddol.

Sut wyt ti'n cadw dy sgiliau digidol yn gyfredol, a pham ma'n bwysig gwneud hynny?

Dw i'n gwyllo llawer o fideos YouTube ac yn tanysgrifio i sianeli am drin a delweddu data. Dw i'n treulio amser yn ymarfer. Dw i'n trefnu bod gen i ychydig o amser bob wythnos i ymarfer neu i roi cynnig ar dechneg newydd. Yn fy marn i, y ffordd orau o ddysgu ydy rhoi cynnig ar rywbeth mewn sefyllfa ddiogel (hynny yw, rhywbeth nad yw'n rhan o'ch gwaith prosiect ar y pryd). Mae'n bwysig iawn gallu gwneud rhywbeth yn anghywir, ac wedyn dod i ddeall sut mae gwneud rhywbeth yn iawn. Mae darllen fforymau ar y Rhyngwrld yn ddefnyddiol iawn fel arfer. Peidiwch â bod ofn gofyn am help. Bydd yna wastad rywun sydd wedi gorfod datrys yr un broblem, neu sy'n fwy profiadol na chi. Mae maes TG yn symud yn gyflym iawn. Yn fy mhrofiad i o ddelio â chwsmeriaid, byddwch chi bob amser yn dod ar draws pobl a fydd yn gwybod mwy na chi. Ond mae gwybod am dechnoleg neu ddull newydd a dealltwriaeth gyffredinol yn ddigon i chi allu cael sgysiau buddiol. Bydd gwybod y diweddaraf yn gwneud i chi sefyll allan, gan fod hyn yn anodd i lawer o bobl.

Pa gyngor fyddet ti'n ei roi i bobl ifanc am sgiliau digidol?

Peidiwch â bod ofn rhoi cynnig ar bethau newydd, a rhowch gyfle i chi'ch hun wneud pethau'n anghywir. Yn aml iawn, dyna'r ffordd orau o ddysgu. Gofynnwch am help – mae pobl yn barod i helpu ar y cyfan, a byddan nhw'n eich rhoi ar y trywydd iawn. Manteisiwch ar y pethau sydd ar gael am ddim. Mae digonedd o adnoddau am ddim ar gael wrth geisio dysgu sgiliau TG newydd. Byddwch yn ymwybodol o'r diweddaraf! Gwnewch yn siŵr bod hyn yn rhan o'ch trefn arferol. Hyd yn oed os nad ydy'r hyn rydych chi'n ei ddysgu yn teimlo'n berthnasol ar y pryd, dw i'n aml yn gweld bod yr wybodaeth yn aros yng nghefn fy meddwl ac yn dod yn ôl i mi pan fydd angen yr wybodaeth arna i.



ZAYNAB, ATHRO >



Beth ydy dy swydd di?

Dw i'n athro mewn ysgol uwchradd. Dw i'n dysgu Hanes i fyfyrwyr 11-18 oed.

Beth ydy diwrnod gwaith arferol i ti?

Dw i'n cyrraedd yr ysgol ac yn paratoi'r adnoddau sydd eu hangen arna i ar gyfer y diwrnod. Dw i'n dysgu 3-5 dosbarth yn ystod y dydd, yn marcio gwaith dosbarth a gwaith cartref y myfyrwyr, ac yn cynllunio gwersi ar gyfer y diwrnodau neu'r wythnosau canlynol. Gan ddibynnu ar y diwrnod, efallai y bydda i ar ddyletswydd amser egwyl neu amser cinio neu'n goruchwyllo myfyrwyr sy'n gorfod aros i mewn, yn ogystal â rhedeg y clwb trafod allgyrsiol.

Pa sgiliau digidol sylfaenol rwyd ti'n eu defnyddio yn dy swydd?

Mae'n rhaid i mi anfon negeseuon e-bost at athrawon ac aelodau eraill o'r staff, yn ogystal â rhieni gofalwyr. Dw i hefyd yn defnyddio adnoddau digidol i gyflwyno fy ngwersi ac i gofnodi data am y myfyrwyr, fel eu marciau ar gyfer prosiect gwaith cartref.

Pa raglenni a meddalwedd rwyd ti'n eu defnyddio, ac ar gyfer beth?

Dw i'n defnyddio Microsoft PowerPoint i greu cyflwyniadau ar gyfer fy ngwersi. Mae'n nhw fel arfer yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer y gwahanol dasgau, neu ddyfyniadau neu ddelweddau diddorol i'r myfyrwyr eu trafod. Dw i hefyd yn defnyddio Microsoft Outlook i anfon negeseuon e-bost, a Microsoft Word i greu taflenni gwaith ac adnoddau eraill ar gyfer y myfyrwyr. Hefyd, mae gan yr ysgol feddalwedd arbenigol ar gyfer ysgolion, sef SIMS. Rydym yn defnyddio'r feddalwedd yma i wneud y gofrestr ac i gofnodi data, fel marciau gwaith cwrs a gwaith cartref neu bwyntiau cyflawni ar gyfer pob myfyrwr.

Oes angen unrhyw sgiliau digidol arbenigol arnat ti ar gyfer dy swydd? Beth ydyn nhw?

Mae angen i mi wybod sut mae defnyddio SIMS i wneud yn siŵr bod data'n cael ei gofnodi'n effeithiol. Ond, fe ges i hyfforddiant ar hyn wrth ddechrau yn yr ysgol. Roedd yn hawdd dysgu hyn gan fod gen i sgiliau digidol sylfaenol a sgiliau meddal, fel deall data, a oedd wedi fy helpu i.

Wyt ti'n defnyddio unrhyw sgiliau digidol yn dy swydd nad oeddet ti'n gwybod amdany'n nhw neu'n eu disgwyl cyn dechrau?

Do'n i ddim yn disgwyl gorfod defnyddio Microsoft Office mor aml, a meddwl am ffyrdd newydd a dyfeisgar o gyflwyno gwybodaeth i'r myfyrwyr drwy ddefnyddio adnoddau digidol. Mae hi wedi bod yn ddiddorol datblygu fy sgiliau PowerPoint i wneud yn siŵr bod fy ngwersi i'n ddiddorol ac yn hawdd i'r myfyrwyr eu deall.


Sut wyt ti'n cadw dy sgiliau digidol yn gyfredol, a pham mae'n bwysig gwneud hynny?

Mae'r ysgol yn rhoi hyfforddiant am ddim i mi os bydd angen i mi ddysgu unrhyw sgiliau digidol penodol. Dw i hefyd yn gwyllo tiwtorialau ar YouTube, ac yn chwilio am gyngor ar wefannau dibynadwy am y ffyrdd gorau neu hawsaf o ddefnyddio rhaglenni penodol.

Pa gyngor fyddet ti'n ei roi i bobl ifanc am sgiliau digidol?

Treuliwch amser yn buddsoddi yn eich sgiliau meddal – creadigrwydd, datrys problemau ac ati – oherwydd bydd hyn yn help mawr i chi pan fyddwch chi eisiau datblygu sgiliau digidol. Hefyd, defnyddiwch y rhyngwryd i weld pa sgiliau ac adnoddau digidol sydd o ddiddordeb i chi, neu a fyddai'n gallu'ch helpu chi gyda hobi neu ddiddordeb. Mae llawer o adnoddau ar-lein a thiworialau fideo am ddim ar gael i chi eu defnyddio os ydych am ddatblygu'ch sgiliau digidol, felly manteisiwch arny'n nhw!

DEBBIE, PARTNER POBL >



Beth ydy dy swydd di?

Dw i'n Bartner Pobl, ac yn gweithio gyda siopau ar ran Tesco.

Beth ydy diwrnod gwaith arferol i ti?

Dw i'n dechrau'r diwrnod gyda negeseuon e-bost, ac wedyn yn rhestru blaenoriaethau. Fel arfer, fe fydda i'n siarad ar y ffôn sawl gwaith y dydd â Rheolwyr Siop, Timau Arwain a Phartneriaid Pobl eraill, ac yn gwneud nifer o swyddogaethau eraill dw i'n gweithio arnyn nhw gyda'r tîm pobl. Dw i'n gwasanaethu ardal ddaearyddol fawr yn fy swydd, ac yn helpu tua 1600 o gydweithwyr er mwyn gofalu eu bod nhw'n cael profiad gwych. Ar unrhyw ddiwrnod fe fyddwn i'n gallu bod yn ymweld â siop, yn cynnal gweithdy, yn dadansoddi data, yn creu cynlluniau datblygu personol, neu'n rhoi hyfforddiant.

Pa sgiliau digidol sylfaenol rwyt ti'n eu defnyddio yn dy swydd?

Dw i'n defnyddio e-bost a fideogynadledda ar gyfer cyfarfodydd a hyfforddiant. Dw i hefyd yn defnyddio taenlenni i ddadansoddi data.

Pa raglenni a meddalwedd rwyt ti'n eu defnyddio, ac ar gyfer beth?

Dw i'n defnyddio Microsoft Outlook ar gyfer e-bost, PowerPoint ar gyfer cyflwyniadau, a Teams ar gyfer cynnal cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi. Dw i hefyd yn defnyddio Excel i rannu a dadansoddi data.

Oes angen unrhyw sgiliau digidol arbenigol arnat ti ar gyfer dy swydd? Beth ydyn nhw?

Does dim angen unrhyw sgiliau digidol arbenigol arna i ar gyfer fy swydd, dim ond dealltwriaeth sylfaenol o sut mae defnyddio bysellfwrdd a'r meddalwedd uchod. Dros y 18 mis diwethaf, mae'r ffordd dw i'n gwneud fy swydd wedi newid yn ddramatig, ac mae'n rhaid gallu cyfathrebu'n ddigidol. O ganlyniad i hynny, dw i'n fwy effeithlon wrth fy ngwaith.

Wyt ti'n defnyddio unrhyw sgiliau digidol yn dy swydd nad oeddet ti'n gwybod amdany'n nhw neu'n eu disgwyl cyn dechrau?

Mae'r swydd wedi datblygu a newid yn ddramatig dros y tair blynedd diwethaf. Doedd cael sgiliau digidol ddim yn allweddol i'r swydd wrth i mi ddechrau, ond maen nhw'n allweddol erbyn hyn. Mae cael sylfaen dda mewn sgiliau digidol wedi dod yn angenrheidiol er mwyn cyfathrebu, bod yn effeithlon a gallu cyrraedd y boblogaeth ehangach yn y busnes.

Sut wyt ti'n cadw dy sgiliau digidol yn gyfredol, a pham mae'n bwysig gwneud hynny?

Defnyddio sesiynau hyfforddi mewnol, gwneud modiwlau i addysgu fy hun, a bod yn chwilfrydig y tu allan i'r busnes am sut mae technoleg yn helpu'r byd wrth iddo newid. Hefyd, gwneud yn siŵr fy mod i'n rhoi fy hun mewn sefyllfaedd lle dw i'n defnyddio'r sgiliau digidol dw i wedi bod yn eu dysgu. Mae hi wedi dod yn bwysig cael y sgiliau hyn er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n dal yn barod ar gyfer y dyfodol. Er bod y byd yn dechrau agor i ni gwrdd wyneb yn wyneb unwaith eto, bydd llawer o'r newidiadau y mae technoleg wedi'u gwneud yn bosibl yn aros yn eu lle. Felly, mae cael y sgiliau diweddaraf a defnyddio technoleg yn effeithlon wedi dod yn rhan fawr o'r swydd.

Pa gyngor fyddet ti'n ei roi i bobl ifanc am sgiliau digidol?

Mae angen i chi groesawu'r sgiliau yma. Byddan nhw'n eich galluogi i fod yn fwy effeithlon ac i gyfathrebu'n effeithiol, a byddan nhw'n arbed amser i chi. Byddan nhw'n eich helpu chi i gyrraedd grŵp demograffig ehangach, i gael gwybodaeth yn gyflym, ac i aros gam ar y blaen.

LIZ, SWYDDOG DATA >

Beth ydy dy swydd di?

Dw i'n Swyddog Data yn y Tîm Prentisiaethau, gan weithio'n rhan-amser yn Tesco.

Beth ydy diwrnod gwaith arferol i ti?

Dw i'n dechrau gyda negeseuon e-bost, ac yn gweithredu ar y rhai pwysicaf yn gyntaf. Wedyn dw i'n edrych ar y calendr i weld pa dasgau y mae angen eu cwblhau yn ystod y diwrnod. Dw i'n treulio rhan fawr o'r diwrnod yn rheoli prosiectau data, ar gyfer ein rhaglenni Prentisiaeth a Kickstart/JobStart. Dw i'n aml yn sgwrsio ar Teams gyda chydweithwyr yn y sefydliad, a gyda darparwyr hyfforddiant sy'n cyflwyno ein hyfforddiant i'n Prentisiaid ac i ddysgwyr Kickstart JobStart.

Pa sgiliau digidol syffaenol rwyf ti'n eu defnyddio yn dy swydd?

Dw i'n defnyddio Microsoft Outlook (e-bost), Excel, Word a PowerPoint.

Pa raglenni a meddalwedd rwyf ti'n eu defnyddio, ac ar gyfer beth?

Dw i'n defnyddio Microsoft Forms i greu arolygon ar-lein ar gyfer ein dysgwyr. Dw i hefyd yn defnyddio safleoedd porth ar-lein i reoli data a statws dysgu ein Prentisiaid.

Oes angen unrhyw sgiliau digidol arbenigol arnat ti ar gyfer dy swydd? Beth ydyn nhw?

Dw i'n meddwl ei bod yn rhaid i chi gael meddylfryd datrys problemau ar gyfer fy swydd i, a dydy hynny ddim o reidrwydd yn golygu sgil digidol arbenigol. Dysgu wrth fynd dw i wedi'i wneud. Mae hynny'n ffordd wych o ddysgu yn fy marn i, ac yn fy helpu i ddal i fod yn chwilfrydig.

Wyt ti'n defnyddio unrhyw sgiliau digidol yn dy swydd nad oeddet ti'n gwybod amdany'n nhw neu'n eu disgwyl cyn dechrau?

Mewn swyddi blaenorol ro'n i'n defnyddio Survey Monkey, sef meddalwedd ddigidol sy'n cael ei defnyddio ar gyfer arolygon ar-lein. Do'n i ddim wedi disgwyl defnyddio Microsoft Forms yn y swydd yma; er hynny, roedd egwyddorion y feddalwedd yn debyg iawn. Bydd yna bob amser lwyfannau digidol a meddalwedd newydd nad oeddech chi wedi disgwyl eu defnyddio yn y swydd, ond dyna sy'n hwyl am ddysgu – cadw meddwl agored, a datblygu'ch sgiliau a'ch gwybodaeth ar hyd y ffordd!

Sut wyt ti'n cadw dy sgiliau digidol yn gyfredol, a pham maen bwysig gwneud hynny?

Mae gen i fwy nag un rôl yn fy mywyd, a dw i'n defnyddio meddalwedd a thechnoleg newydd yn rheolaidd. Dw i wrth fy modd yn gwneud hynny, ac mae'n rhoi agwedd hyblyg i mi tuag at sgiliau newydd. Mae YouTube yn adnodd gwych i ddysgu'n barhaus, ac mae cymaint o diwtorialau ar gael!

Pa gyngor fyddet ti'n ei roi i bobl ifanc am sgiliau digidol?

Mae'r byd yn symud mor gyflym, ac mae'n bwysig iawn cael sgiliau digidol sy'n gallu cael eu trosglwyddo i unrhyw swydd. Fe ddylech chi bob amser gynnwys ar eich CV unrhyw hobïau sy'n cynnwys sgiliau digidol. Mae'n creu cyfle i gael sgwrs gyflawn, ac mae'n dangos eich bod chi'n chwilfrydig a bod gennych chi'r gallu i ddysgu. Byddwch yn ddewr ac yn feiddgar – bydd hynny werth yr ymdrech bob amser!

